Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Rheolwr Tîm - Tîm Asesu Statudol**

**Lleoliad:** **Gweithiwr Ystwyth**

**Cyfarwyddiaeth:** **Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Swydd Rhif:** **BG03426**

**Oriau:** **37 yr wythnos**

**Cyflog:** **Gradd 11 (£52,805 - £56,085 y flwyddyn)**

**Contract:** **Parhaol**

## Crynodeb Swydd

Rheoli a goruchwylio gwaith asesu a chynllunio gofal dechreuol y Tîm Asesu Statudol sy'n. Mae'r Tîm Asesu Statudol yn dîm gofal cymdeithasol gweithredol sy'n gyfrifol am asesu anghenion plant agored i niwed a'u teuluoedd, gan ffurfio cynlluniau gofal a chymorth dechreuol i baratoi ar gyfer trosglwyddo achosion i'n Timau Ardal tymor hirach sy'n rheoli achosion. Bydd swydd y Rheolwr Tîm yn cynnwys sicrwydd ansawdd gwaith y tîm a gwaith llys.

## Hysbyseb Lawn

Nid yw'n gyfrinach, gyda gwreiddiau mewn diwydiant trwm ac fel man geni y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mae gan Flaenau Gwent a'i phobl dreftadaeth gyffredin falch.

Nid oes dim byd yn aros yr un fath wrth gwrs.

Mae diwydiant trwm yn yr ardal wedi mynd a gall y sir yn awr fod yn falch o'r mannau agored hardd sy'n ffurfio cefnlen y daith fer o un ochr o'r fwrdeistref i'r llall. Yn yr un modd, mae ystyr 'cymuned' wedi newid ac wedi addasu i adlewyrchu demograffig newidiol y boblogaeth.

Ond, yn ei graidd, mae Cyngor Blaenau Gwent yn parhau i fod yn ymroddedig i'w weledigaeth o fod yn 'lle gwell i fyw a gweithio'. Gyda'n gilydd, sylweddolwn fod gennym ymrwymiad i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol; rydym eisiau i'n plant a'u teuluoedd gael cyfleoedd i fwynhau dyfodol cyffrous ac uchelgeisiol.

Mae'r swydd yn seiliedig yn ein Tîm Asesu Statudol. Mae'r prif gyfrifoldebau yn cynnwys rhoi arweiniad, cefnogaeth ac arweinyddiaeth i weithwyr cymdeithasol cymwysedig a

gweithwyr cymorth sydd â'r dasg o asesu a chynllunio gofal a chymorth dechreuol ar gyfer plant agored i niwed wrth baratoi am drosglwyddo achosion i'n Timau Ardal tymor hirach sy'n rheoli achosion.

Mae'r timau ardal yn gweithio gyda phlant a'u teuluoedd o'u geni i 14 oed a chaiff ein ymarfer ei yrru gan ffocws ar ddeilliannau, cryfderau a rheoli risg hyderus.

Croesawn geisiadau gan ymgeiswyr mewnol. Croesawn geisiadau gan reolwyr tîm profiadol neu gan uwch ymarferwyr gwaith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol gyda chymwysterau sy'n teimlo'n barod i gymryd y camau nesaf yn eu gyrfaoedd.

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth drwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd lenwi cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.**

Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol **https://socialcare.wales**

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

**Dyddiad Cau:** **27/03/2025**

**Dyddiad Cyfweliadau:** **07/04/2025**